

CYNLLUN BUSNES CAPEL Y BABELL



Paratowyd gan

Gweriniaith

Gwasanaethau Cynllunio Ieithyddol a Chymunedol

22^{ain} Tachwedd 2012

Cynnwys

Rhif tudalen

| | | |
|---|---|----|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Cefndir | 4 |
| 3 | Canfyddiadau | 6 |
| 4 | Ymchwil Marchnad | 13 |
| 5 | Cloriannu opsiynau | 16 |
| 6 | Argymhellion | 19 |
| 7 | Diwedd glo | 24 |
| 8 | Atodiad A: Llythyr/Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus | 25 |

1 Cyflwyniad

Comisiynwyd Gweriniaith i baratoi Cynllun Busnes gan Grŵp Arwain Prosiect Antur Aelhaearn, cwmni cydweithredol cymunedol hynaf gwledydd Prydain. Prynwyd Capel Babell yn mhentref Llanaelhaearn, Pen Llŷn ym 2008 gyda'r bwriad o'i ddatblygu'n adnodd cymunedol fyddai'n cefnogi'r ysgol gynradd leol yn sgil ad-drefnu addysg a dyfodiad ffordd A499 newydd.

Ar y pryd yr argymhelliad ar gyfer y Capel oedd:

Dyluniad deulawr:

Llawr cyntaf

- Ystafell gymunedol / adnodd meithrin
- Cegin
- Tai bach
- Cyntedd

Ail lawr

- 8 swyddfa fychan / ystafelloedd hyfforddiant gyda hyblygrwydd llwyr i addasu yn ôl y gofyn/ galw
- Liffi i'r ail lawr
- 'Gangway' i fuarth yr ysgol

Y gobaith oedd byddai modd datblygu digon o lefydd parcio o flaen y capel i gyflenwi'r swyddfeydd.

Cynlluniau amlinellol oedd y rhain a gefnogwyd yn rhannol gan ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Ar y pryd dengys hefyd bod niferoedd disgyblion ysgol gynradd Llanaelhaearn ar gynydd gyda rhagamcanion y byddai hyn yn cael ei gynnal gyda chynnydd yn y galw am ddarpariaeth meithrin.

2 Cefndir

Y cylch gorchwyl wrth baratoi Cynllun Busnes oedd i ailymweld a'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y Capel er mwyn denu cymorth grant a chyllid. Cynhwysai hyn:

- (i) Adolygu'r holl wybodaeth sy'n cefnogi'r argymhelliad presennol ar gyfer Capel Babell.
- (ii) Ymgynghori ag unigolion a sefydliadau priodol o fewn y pentref (e.e. yr ysgol) yn ogystal â sefydliadau allanol perthnasol eraill fyddai â diddordeb yn y datblygiad.
- (iii) Casglu barn y gymuned ehangach am gyfleoedd y datblygiad.
- (iv) Gwaith archwilio am ffynonellau cyllidol.
- (v) Llunio cyfres o argymhellion yn nhermau llif cyfalaf a refeniw (hynny yw costau adeiladu, rheoli ac incwm) i gynnwys rhagolygon cyllidol 3 blynedd.

Cyflawnwyd gofynion y manyleb trwy gyfuniad o'r 3 elfen canlynol sef:

- a. Gwaith pen desg i
 - (i) adolygu yr holl wybodaeth sy'n cefnogi'r argymhellion presennol ar gyfer Capel Babell ac
 - (ii) archwilio am ffynonellau cyllid.
- b. Cynnal cyfres o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gan holi nifer o gwestiynau a thrywyddau penodedig gyda'r cyfranddalwyr canlynol sef:
 - (i) Pennaeth a Chadair Ysgol Gynradd Llanaelhaearn,
 - (ii) Cynghorydd Sir y pentref/ ward,
 - (iii) Cynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Llanaelhaearn,
 - (iv) Cynrychiolaeth o Gangen Merched y Wawr Llanaelhaearn,
 - (v) Cynrychiolydd Cylch Ti a Fi Llanaelhaearn, a
 - (vi) Chynrychiolydd o Eisteddfod y pentref.
- c. Cynnal trafodaethau ffôn/e-hebiaeth hefo'r canlynol:
 - (i) Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu, Grŵp Llandrillo-Menai (sy'n cynnwys Coleg Meirion Dwyfor) a
 - (ii) Swyddog Adfywio Pwllheli/Llŷn, Cyngor Gwynedd.
 - (iii) Uwch Reolwr Tai Cyngor Gwynedd.
 - (iv) Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd.
 - (v) Gwynedd-Ni.
 - (vi) Uned Blynnyddoedd Cynnar, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.
 - (vii) Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog.
 - (viii) CADW.
 - (ix) Cronfa Loteri Fawr.
 - (x) Cronfa Treftadaeth y Loteri.
 - (xi) Swyddog Prosiect Cyfenter.

- d. Cynnal sesiwn galw i fewn cyhoeddus yn y pentref (yn Festri Capel Babel) ar ddydd Mawrth 17 Gorffennaf rhwng 3pm ac 8pm i'r pentrefwyr ac unrhyw un fyddai â diddordeb yn nyfodol y capel i gyrchu barn am y ffordd ymlaen.
- e. Holiadur a ddosbarthwyd i bob cartref yn y pentref ac a osodwyd ar safle gwe Llanaelhaearn.com. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus yng ngholofn llythyrau y "Daily Post" a'r "Caernarfon & Denbigh".

Rhwng y sesiwn galw i fewn a'r holiaduron derbyniwyd 34 ateb gan aelodau o'r gymuned leol.

Cynhaliwyd y gwaith pen desg/ maes rhwng misoedd Mai a Hydref 2012.

3. Canfyddiadau

3.1. Adolygu'r holl wybodaeth sy'n cefnogi'r argymhelliad presennol ar gyfer Capel Babell.

Ystyriwyd argymhellion presennol Antur Aelhaearn sef meithrinfa a hyd at 8 uned swyddfa trwy edrych ar feithrinfeydd cyfagos ym Mhwllheli a phentrefi eraill a cyfleusterau sy'n cynnig hurio swyddfeydd i unigolion/cwmnïau lleol. Cafwyd gwybodaeth pellach gan Gwynedd-Ni er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gostau meithrin cyfartalog y sir. Adroddir yn fanylach ar yr argymhellion hyn yn yr Adran Argymhellion (6). Wrth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ymhlith trigolion y pentref cynhwyswyd yr argymhellion hyn fel opsiwn at bwrpas addasu'r Capel, ond roedd modd hefyd i unigolion gefnogi opsiynau eraill megis fflatau/unedau byw i bobl leol, henoed ayyb. Er nad oedd yr opsiwn hwn mor boblogaidd â meithrinfa/unedau busnes, cynhaliwyd gwaith ymchwil pellach er mwyn asesu addasrwydd yr opsiwn, a cafwyd gwybodaeth gan Uwch Reolwr Tai Cyngor Gwynedd a Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd. Adroddir yn fanylach ar yr opsiwn hwn hefyd yn Adran Argymhellion (6).

3.2. Ymgynghori ag unigolion a sefydliadau priodol o fewn y pentref (e.e. yr ysgol) yn ogystal â sefydliadau allanol perthnasol eraill fyddai â diddordeb yn y datblygiad.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gydag unigolion a sefydliadau perthnasol, a cafwyd cadarnhad gan Uned Blynyddoedd Cynnar, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd y byddai ganddynt ddiddordeb mewn llogi un o'r Unedau Swyddfa a hynny am gyfnod o flwyddyn ariannol yn y lle cyntaf, yn ddarostyngedig i setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Fel arall cadarnhaodd Coleg Llandrillo-Menai na fyddai ganddyn' nhw ddiddordeb mewn llogi uned.

Cafwyd consensws o blaid yr argymhelliad presennol ymhlith cynrychiolwyr mudiadau'r pentref.

3.3. Casglu barn y gymuned ehangach am gyfleoedd posibl i'r datblygiad.

Dadansoddwyd barn y cyhoedd trwy'r 34 holiadur a gwblhawyd, 20 gan ferched ac 14 gan ddynion.

1. Yn 2008 prynodd Antur Aelhaearn Capel Babell gyda'r bwriad o'i addasu fel adeilad i'w ddefnyddio fel adnodd i'r gymuned leol. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad yma?

32 (97%) Ydw

1 (3%) Nac ydw (nodwch pam)

Dengys cefnogaeth gref i'r bwriad o greu adnodd cymunedol o'r Capel.

O ran sylwadau 'Nac ydw, nodwch pam' cafwyd:

"Llanaelhaearn already has a community centre which is more than adequate for its needs. Purchasing Babell Chapel exposed the Antur Aelhaearn financial risks."

2. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad bydd angen gwneud cais am grantiau cyhoeddus. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad yma?

28 (93.3%) Ydw

2 (6.7%) Nac ydw (nodwch pam)


O ran sylwadau 'Nac ydw, nodwch pam' cafwyd:

"It is impossible to answer this question. You have stated that "public grant applications will NEED to be submitted". Why is this the case? You have stated to make the "best use possible of the building" and as yet no use for the building has been decided. Therefore how can one be sure that grants would be required? Furthermore when the building was bought who made the decision to buy the building and was the community consulted in this decision. It is my understanding that the original shareholders of Antur Aelhaearn were NOT consulted in this decision. Why was this?"

"Grant funding is not free money. If grant funding is secured to use on Babell Chapel it could be taking money away from other projects in this or other communities which would make better use of the money. The existing community centre is not running at full capacity so an additional building is not necessary.¹"

¹ Cadarnhaodd Antur Aelhaearn fod defnydd uchel iawn yn cael ei wneud o'r Ganolfan Gymunedol, sy'n mwy na thalu amdano'i hunan.

3. Rhowch gylch o gwmpas y syniadau canlynol ar gyfer Capel Babel yr ydych chi yn eu cefnogi?



Dengys mai meithrinfa yw'r syniad mwyaf poblogaidd ynghyd ag ystafell gymunedol ac arddangosfa hanes lleol. Mae llai na hanner yr ymatebwyr yn ffafrio unedau swyddfa a gwerthu crefftau lleol.

4. Os nad ydych yn cefnogi'r syniadau uchod pa ddefnydd ymarferol a realistig gareth chi weld Antur Aelhaearn yn ei wneud o'r adeilad?

O'r 7 (neu 20.5%) ymateb a gafwyd, nodwyd y canlynol sef:

"There is a feasible option of conversion to flats or maisonettes as an alternative, but this would depend on many factors and further investigation would be required from those professionally qualified to make that assessment!"

"It is Antur Aelhaearn's wish to guarantee and secure the future of the village. The original intention was to provide jobs and to encourage the younger generation to stay in the village. It is my belief that none of the proposals above will realise this. However due to the decline in social housing and the high prices for care homes for the elderly I believe that the building could be converted into apartment units, without seeing the floor plans of the building which you have not provided it would be difficult to ascertain how many units the building could be converted into. However it is not beyond the realms of possibility that at least two 2 bedroom or even four 1 bedroom apartments for the younger generation, families or the elderly could be created and provide much needed accommodation for local families to rent at an affordable rental, therefore providing much needed housing and also create some rental potential and income for Antur Aelhaearn."

"Sell the building to make way for affordable housing."

"Mae canolfan yn y pentref yn barod fuasai yn cyflenwi y mwyafrif o'r syniadau yma. Mi fuasai yn syniad gwell ei droi yn adeilad preswyl rhent isel. Mi fuasai hyn yn creu ffynhonnell incwm i'r 'Antur' yn ogystal a creu llety i unai bobol ifanc neu henoed, a rhoi cyflenwad o llety rhent rhesymol i alluogi bobol ifanc y gymuned aros yn ei cynefin."

"Fflatiau i'r henoed lleol yn unig. Cydweithio hefo Cymdeithas Tai Eryri a Cartrefi Cymunedol Gwynedd."

"A bod yn realistic dwi ddim yn credu fod yr adeilad mewn lle addas hefo parcio, allan o'r ffordd etc."

"Dymchwel i wneud lle i fflatiau gwyrdd eco gyfeillgar fforddiadwy i bobl leol gyda lle i 3 - 4 car barcio gan fod y boblogaeth yn mynd yn fwy mae angen mwy o le i bobl fyw."

5. Unrhyw sylwadau pellach?

O'r 25 (neu 73.5%) ymateb pellach a gafwyd roedd detholiad gynrychioladol yn cynnwys y canlynol:

“Teimlaf yn gryf mai'r peth gorau ar gyfer y Capel fyddai creu meithrinfa yno. Mae hon yn farchnad lewyrchus iawn, un a fyddai'n dod â budd economaidd i'r pentref. Byddai'n helpu'r ysgol drwy ddarparu gofal i blant fel nad ydynt yn gorfod mynd i ysgol arall oherwydd bod y gwarchodwr yn byw yno. Mae sawl teulu wedi gorfod mynd â'u plant i ysgolion eraill yn ddiweddar oherwydd hyn. Byddai meithrinfa yn dod â gwaith hefyd, rhywbeth sydd wir ei angen yn yr ardal Credaf y byddai hyn yn syniad gwell o lawer nag adeiladu fflatiau, boed i'r henoed neu beidio. Mae digon o eiddo tebyg ar rent yma'n barod, ac maent yn tueddu i ddod â mwy o broblemau na dim byd arall.”

“Having met with a large sector of the community to discuss the future prospects for Antur with reference to this building and having sought expert building and surveying advice, the economics of this project strongly suggest that the Chapel is either sold or demolished to make way for affordable housing for young people or the elderly. I am aware that those pushing this venture are keen to make use of the Chapel for Antur's long term future, but in this instance, the feasibility and merits of such a venture suggests strongly that this is probably not a viable option. I hope that this point of view proves helpful in your quest to glean local opinion on the matter - in short we in the community feel that Antur Aelhaearn made a fundamental mistake in purchasing the Babell Chapel in the first instance and that the money would have been better spent improving the village amenities - in particular, the shop, school playing field and the local pub would have been my first choices here!”

“Hoffwn weld yr Antur yn datblygu meithrinfa yn y Capel. Mae Llanaelhaearn mewn lleoliad delfrydol i wneud hyn gan fod cymaint o rieni'n pasio i fynd i weithio i Gaernarfon. Byddai'n hwylus a chyfleus iawn iddynt. Byddai meithrinfa yn bwydo'r ysgol leol hefyd gan na fyddai'n rheini, unwaith y byddant wedi gadael eu plant yn y feithrinfa, yn dod i'w nôl a mynd â nhw i ysgol arall, felly byddai'r plant hynny yn mynd i Ysgol Llanaelhaearn. Byddai hynny'n fudd mawr i'r ysgol yn y dyddiad ansicr yma. Byddai'r feithrinfa yn fusnes byw, hyfyw fyddai'n dod â bwrlwm i'r pentref. Mae'n fusnes gyda'r potensial i fynd am byth, bydd plant yn parhau i gael eu geni a bydd galw parhaus am wasanaeth o'r fath. Byddai hefyd yn dod â swyddi hollol angenrheidiol i bentref tlawd iawn. Mae sawl un wedi crybwyll creu fflatiau i'r henoed yma. Ni fyddai hynny, yn fy marn i yn dod ag elw, gwaith na bwrlwm newydd i'r pentref, yn hytrach byddai'n draul ar yr economi leol. Pwy fyddai'n gofalu am y fflatiau yma, byddent yn dirywio ymhen amser, ac yn gadael mwy o lanast yn y pentref. Byddai meithrinfa ar y llaw arall yn fusnes prysur, fydda'i mynd o nerth i nerth gobeithio ac efallai'n denu teuluoedd ifanc yma i fyw, yn agos at y feithrinfa.”

“Gwirioneddol angen adnodd gwarchod y plant yn y pentref er mwyn cadw plant rhag mynd i ysgolion eraill oherwydd problemau gwarchod. Mae mewn man delfrydol. Hefyd byddai cael adnodd i ddehongli Tre'r Ceiri yn denu twristiaid ac yn adnodd addysgol gwerthfawr iawn.”

“Braf gweld ‘Antur Aelhaearn’ yn cymeryd diddordeb ym marn y gymuned. Fuasai hefyd yn syniad iddynt geisio defnyddio sgiliau, talent a cysylltiadau pobol y gymuned i helpu mewn datblygiadau o’r fath.”

3.4. Gwaith archwilio am ffynonellau cyllidol.

Yn sgîl trafodaethau gyda cyfranddalwyr ymchwiliwyd i nifer o ffynonellau grantiau gwahanol. Y canfyddiad oedd:

3.4.1. Grant Pawb a’i Le (Cronfa Loteri Fawr)

Ddyrennir y grant hwn i sefydliadau’r sector gwirfoddol, cymunedol a chyhoeddus sydd naill ai’n gweithio ar wahân neu gyda’u gilydd.

Ariennir prosiectau cyfalaf a refeniw sy’n annog gweithredu wedi’i gydlynu gan bobl sydd eisiau gwneud eu cymunedau yn lleoedd gwell i fyw. Cefnogir prosiectau lleol a rhanbarthol ar draws Cymru sy’n canolbwyntio ar:

- adfywio cymunedau
- gwella cysylltiadau cymunedol, neu
- cyfoethogi amgylcheddau lleol, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau

Y prif nod yw dwyn pobl ynghyd i greu gwelliannau gwirioneddol i gymunedau a bywydau’r bobl fwyaf anghenus. Byddai angen i’r prosiect gael ei arwain gan y gymuned - felly mae helpu pobl i ddatblygu’r sgiliau a’r hyder i ddod yn fwy cysylltiedig â’u cymuned yn agwedd annatod o’r rhaglen hon.

Mae tair lefel o grant Pawb a’i Le sef:

- grantiau rhwng £5,001 a £250,000
- grantiau rhwng £250,001 a £500,000
- grantiau strategol rhwng £500,001 a £1 miliwn

Telir am gostau prosiect yn rhannol neu’n gyfan, ond anogir ymgeiswyr i gael cyfran o’u cyllid o ffynonellau eraill os yn bosibl. Os yw ymgeiswyr yn bwriadu cael arian o ffynonellau eraill, bydd CLF yn ystyried y tebygrwydd y byddant yn medru ei godi.

Mae’r Ffurflen Amlinellu Cynnig yn ffurflen fer sy’n darparu disgrifiad byr o’r prosiect. Dylai’r ffurflen hon gynnwys digon o wybodaeth i CLF ddeall y cynllun ar gyfer y prosiect, yr angen amdano, y buddiolwyr a’r gwahaniaeth y bydd y prosiect yn ei wneud i’r cymuned leol.

Bydd angen bod mor glir a chryno ag sy’n bosibl gan mai bwriad y broses hon yw galluogi CLF i roi ateb cyflym. Dylid cofio nad yw CLF fel rheol yn gwybod unrhyw beth am y mudiad a’r prosiect, a dylid ysgrifennu’r wybodaeth yn glir, gan osgoi defnyddio jargon. Efallai y byddai’n ddefnyddiol g ofyn i rywun nad yw’n gysylltiedig gyda’r mudiad i ddarllen y ffurflen cyn ei anfon, i weld os ydynt yn ei ddeall.

Bydd gan ymgeisydd chwech mis i anfon cais llawn at CLF. Gellir anfon y ffurflen gais llawn yn gynharach os fydd yn barod. Disgwylir i ymgeisydd gyflawni unrhyw adborth a roddwyd gan CLF ar y Ffurflen Amlinellu Cynnig.

Pe byddai ymgeisydd yn gweld nad oes modd anfon y cais o fewn chwech mis, dylid ysgrifennu at CLF ar unwaith i roi'r rhesymau, a gofyn am estyniad. Byddai CLF yn debygol o ystyried estyniadau byr i'r cyfnod hwn pan fo'r oedi yn sgil ffactorau tu hwnt i rheolaeth yn unig.

Dyma'r ffynhonnell grantiau mwyaf hyfyrw ar sail gwaith ymchwil. Dengys bod Capel Babell yn bodloni'r cyfan o'r meini prawf a'r budd ar gyfer trigolion lleol.

3.4.2. Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol ('Community Facilities & Activities Programme')

Cronfa o hyd at £300,000 a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Er bod modd ymgeisio am y gronfa yma law yn llaw â Phawb a'i Le, caiff ei gweld fel opsiwn wrth gefn.

3.4.3. Cronfa Loteri Treftadaeth

Mae CLT yn cynnig gwasanaeth ymholi cyn gwneud cais sydd ar gael trwy'r safle gwe, er mwyn rhoi cyngor pellach a chyngor am addasrwydd cais i raglenni CLT. O Ebrill 2013 cynigir grantiau cychwyn ('start up') i gynorthwyo sefydliadau i asesu opsiynau o gwmpas rheoli eu treftadaeth. Bydd y grantiau hyn yn dyrannu symiau rhwng £3,000 and £10,000 gyda mwy o wybodaeth ar gael o fis Chwefror 2013 ymlaen.

3.4.4. Prosiect Twristiaeth Treftadaeth (Eiddo mewn Gofal, CADW)

Erbyn hyn nid oes ganddynt arian ar ôl yn y coffrau ond byddai modd ychwanegu'r Capel ar y rhestr gyswllt er mwyn rhoi gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach. Ychwaith ni fyddai Grant Henebion Hynafol CADW yn gymwys ar gyfer datblygiad Capel Babell.

3.4.5. Cyfenter

Yn gallu cyfrannu hyd at £75k cyfalaf a referniw tuag at unrhyw brosiect ond ni fyddai'n gallu cyfrannu tuag at drosi'r Capel yn unedau byw. Gallai brofi'n gaffaeliad o ran y dimensiwn masnachol a chyflogadwyaeth.

3.4.6. Cist Gwynedd

O gronfa cyfalaf/referniw 'Cronfa Datblygu Gwirfoddol' Cymdeithas Tai Gwynedd mae modd denu hyd at £10-12k. Hefyd mae gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd 'Gronfa Buddsoddi Cymunedol' a weinyddir gan Mantell Gwynedd, sy'n cynnig uchafswm o hyd at £10k (cyfalaf/referniw). Yr un panel sy'n dyrannu grantiau o'r ddwy gronfa uchod, ac mae modd cyfuno cais mewn un ffurflen gais.

3.4.7. Galluogi Gwynedd

Yn y flwyddyn ariannol bresennol mae gronfa yn dyrannu hyd at £5 miliwn ac yn cael ei weinyddu gan Mantell Gwynedd. Efallai nad yw hwn yn gronfa addas i ymgeisio am arian.

4. Ymchwil Marchnad

Cynhaliwyd gwaith ymchwil marchnad ar sail yr holl opsiynau a gyflwynwyd yn y briff a'r ymgynghoriad cyhoeddus. Nodir isod y casgliadau.

4.1. Meithrinfa.

Holwyd Pennaeth Ysgol Gynradd Llanaelhaearn ac ym mis Medi 2013 roedd 34 disgybl ar y cofrestr llawn amser a 6 meithrin. Mae 14% o ddisgyblion y dalgylch yn derbyn eu haddysg mewn ysgol arall ac 11% o du allan i'r dalgylch yn derbyn eu haddysg yn Llanaelhaearn. Dyma'r unigolion, a rhai ieuengach yn y pentref fyddai'n elwa o feithrinfa yn Y Babell. Hefyd yn mis Medi roedd 12+ o fabanod yn mynd hefo rhiant i Gylch Ti a Fi yn yr Ysgol. O ran canfod beth fyddai'r galw am feithrinfa fyddai hefyd yn cynnig darpariaeth clwb ar ôl ysgol nododd y Pennaeth *"mae'n anodd mesur yr angen ar ofal ar ôl yr ysgol a thrwy'r dydd gan nad ydym wedi ei gynnig yma o'r gwbl. Mae un teulu yn cael eu gwarchod gan ofalwraig lleol yn barod. Rydym wedi colli dau blentyn (9 a 7 oed?) gan bod y nain yn gwarchod yn Felinwnda, mae un plentyn (7 oed) yn cael ei warchod gan ei nain ym Mhwillheli – nid yw'r rhain wedi cychwyn yma o gwbl gan bod y trefniadau yn eu lle yn barod. Efallai y byddai rhain wedi dod yma petai meithrinfa. Mae nifer o rieni yn awyddus i fynd yn ôl i weithio pan mae'r plant yn dod i'r flwyddyn feithrin ond ddim yn medru gwneud hynny oherwydd y gofal."*

Yn ôl Adran Addysg Cyngor Gwynedd, o fewn y dalgylch mae 2 feithrinfa ym Mhwillheli (gyda 37 a 29 plentyn yr un). Mae'r olaf hefyd yn Glwb ar ôl Ysgol. Mae un Cynllun Chwarae yn Abersoch a meithrinfa gymunedol ym Mhenygroes. Mae ffioedd y dydd yn amrywio o £34 y dydd mewn un meithrinfa ym Mhwillheli. Mae meithrinfa arall ger Caernarfon yn cynnig clwb ar ôl ysgol a chlwb gwyliau ysgol ac yn codi £30 y dydd am glwb gwyliau neu £20 am hanner dydd. Cost y clwb ar ôl ysgol yw £12.50 o 3-6pm, a'r Feithrinfa yn £35 y dydd neu £24.50 am hanner dydd. Byddai wythnos llawn yn £160.

Mae lleoliad pentref Llanaelhaearn fel porth i Ben Llŷn ar y ffordd i Gaernarfon a Bangor yn gaffaeliad pellach o ran denu plant rhieni sy'n gweithio yn y dref neu'r ddinas a thu hwnt ond yn byw i'r gorllewin o'r pentref.

Pe byddai'r feithrinfa hefyd yn cynnig darpariaeth clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol a chynllun chwarae gwyliau ysgol byddai'n ganolfan aml bwrrpas i fabanod, plant a disgyblion yn eu harddegau sy'n byw yn y pentref a thu hwnt. Gallai felly gyfrannu at atal llif ymhlith rhai teuluoedd o adael y pentref oherwydd diffyg gofal plant. Yn ei gyfanrwydd felly gallai meithrinfa gyfrannu at gryfhau achos o blaid cadw Ysgol y pentref (Ysgol Ardal?) yn agored fel rhan o drefniadau ad-drefnu addysg Cynradd y sir.

4.2. Ystafell gymunedol

Gallai Y Babell fod yn safle ar gyfer cynnal nifer o weithgareddau cymunedol a gynhelir ar hyn o bryd yn y Ganolfan, festri'r Capel. Byddai hynny'n rhyddhau'r Ganolfan at ddibenion eraill.

4.3. Arddangosfa Hanes lleol

Mae'r pentref wrth odre Yr Eifl sy'n gartref i safle hanesyddol Tre Ceiri. Yn ôl Wikipedia:

“Tre'r Ceiri is a [hill fort](#) dating back to the [British Iron Age](#), which may have been built around 100 BC - though all the archaeological finds date from AD 150-400, placing the site firmly in the Roman period.

*It is one of the most spectacular ancient monuments in [Wales](#), located on the eastern-most summit of [Yr Eifl](#), its stone ramparts survive in parts to almost their full height. In modern times it was first brought to popular attention by [Thomas Pennant](#) in his *Tours of Wales*. Its location and importance have attracted visitors for years.*

The hill fort has recently been the site of conservation work and footpath maintenance. An extensive survey was made in 1956.”

Mae lleoliad Llanaelhaearn fel y porth i Ben Llŷn sy'n denu miloedd o ymwelwyr yn yr haf ac i raddau llai yn ystod gwyliau ysgol eraill – i'w traethau, gweryslyoedd, llwybrau arfordirol a chwaraeon dŵr niferus.

Nid oes fawr ddim o gyhoeddusrwydd nac arwyddion brown ar gyfer Tre'r Ceiri, ac felly byddai darparu arddangosfa yn denu ymwelwyr i'r pentref a fyddai wedyn yn cerdded i fyny'r Eifl. Mae Cymdeithas Archeolegol Gwynedd a CADW yn cefnogi'r syniad hwn ac efallai byddai modd denu cyllid o Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru neu'r Comisiwn Brenhinol. Pe byddai modd denu cyllid gallai arddangosfa ymwelwyr ddenu ymwelwyr ar eu ffordd i ac o atyniadau eraill yr ardal a chodi proffil y pentref. Byddai hefyd yn atgyfnerthu llwybr arfordirol Cymru gyfan a agorwyd ym mis Mai 2012 a'r gwasanaethau a ddarperir gan gwmni The Edge of Wales Company –

“A Walking Holiday in North Wales along the Llŷn Coastal Path, one of the great Celtic Trails, operated by local people offering a complete package of accommodation, local information, maps, gps, baggage transfer and transport. Enjoy the spectacular Welsh countryside on the 47 mile (75.6 km) coastal path along the Llŷn Peninsula leading to Bardsey Island or walk the whole way around the Llŷn from Caernarfon to Porthmadog, 95 miles in all.”

Ymhellach byddai'n denu ymwelwyr sydd â diddordeb mewn safleoedd archeolegol.

4.4. Gwersi nos

Gellir cynnig ystod o wersi nos cymunedol gan ddarparwyr sector cyhoeddus/trydydd sector.

4.5. Unedau Swyddfa

Yr opsiwn fyddai i ddarparu hyd at 8 uned swyddfa ar les tymor byr a/ neu hir i fusnesau a/ neu'r sector gyhoeddus. Fel arall gallant gynnig darpariaeth dros dro i hunan gyflogwyr sydd â phlant ifanc allai fynychu'r feithrinfa ar yr un safle.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddai ganddynt ddiddordeb mewn llogi un uned ar gyfer cyflogai lleol sy'n defnyddio gofod yng Nghanolfan Antur Aelhaearn ar hyn o bryd. Er nad oedd modd cadarnhau y byddai hyn yn drefniant tymor hir, os yw cynllun iaith a chwarae yn parhau byddai'n bosibl rhentu uned yn unol â thelerau grant y Llywodraeth.

Mae menter tebyg ond fwy gwledig (Congl Meinciau, Botwnnog) yn cael cryn drafferth rhentu allan gofod swyddfa i bobl hunan gyflogedig lleol, ond mae lleoliad Y Babell yn fwy manteisiol ar y groesffordd rhwng Arfon a Dwyfor. Gellir hefyd cynnig telerau rhentu mwy cystadleuol er mwyn sbarduno'r farchnad.

4.6. Gwerthu crefftiau lleol

Ychwanegiad i opsiynau eraill, gallai arwain at gynyddu defnydd cymdeithasol a masnachol o'r adeilad – yn arbennig Arddangosfa Hanes Lleol ac ymwelwyr a ddaw yn sgil hynny.

4.7. Tai lleol

Trwy Adran Tai, Cyngor Gwynedd sefydlwyd beth oedd darpariaeth tai cymdeithasol Llanaelhaearn :

- 1 tŷ hefo 1 ystafell wely
- 8 tŷ hefo 2 ystafell wely
- 17 tŷ hefo 3 ystafell wely
- 2 dŷ hefo 4+ ystafell wely

Dim byngalos, fflatiau na maisonettes.

Nifer trigolion Llanaelhaearn sydd ar restr aros am dai cymdeithasol ar Gofrestr Tai Cyffredinol (11 Medi 2012):

Mae 44 ymgeisydd sydd wedi dewis y 3 ardal isod, ac wedi ystyried ceisiadau deublyg:

- 24 ymgeisydd wedi cynnwys Llanaelhaearn yn eu dewisiadau (13 wedi dewis Llanaelhaearn yn unig)
- 26 ymgeisydd wedi dewis Trefor (pentref cyfagos)
- 7 ymgeisydd wedi dewis Llithfaen (pentref arall cyfagos).

Gall pobl ddewis rhwng 1 a 3 ardal/pentref. Mae hyn yn rhoi syniad ac yn cadarnhau yr angen am eiddo yn yr ardal. Mae'r budd yn gyfyngedig i denantiaid yn unig ac mae asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu unedau preswyl ar sail angen lleol.

Opsiwn arall fyddai i werthu'r Capel ar y farchnad agored a allai fod yn saffach yn ariannol nac opsiynau eraill sydd â mwy o risg busnes ond a fyddai'n cynhyrchu buddion cymdeithasol a chymunedol uwch. Pe addaswyd y Capel yn breswylfannau dim ond preswylwyr unedau byw yn unig fyddai'n elwa o'r opsiwn hwn ac mae opsiynau eraill yn cydweddu'n well gydag amcanion cymdeithasol a chymunedol sefydlu Antur Aelhaearn.

5. Cloriannu opsiynau

Wrth gloriannu pa opsiynau sy'n gweddu orau i Gapel Babell mabwysiadwyd y meini prawf i ddyfarnu pob opsiwn yn ôl haeddiant ac er mwyn gallu cyrraedd at gasgliadau gwrthrychol.

1. Budd cymdeithasol/cymunedol.
2. Budd economaidd.
3. Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol.

O ran rhoi pwysiad i bob un maen prawf diffinnir gwerth fel effaith Uchel, Canolig ac isel sy'n trosglwyddo i ddyfarniad o 3, 2 ac 1 pwynt yr un.

At bwrpas y Cynllun Busnes ni ddiystyrwyd argymell cyfres o opsiynau, yn arbennig os ydynt yn cydweddu, yn ddarostyngedig i'r gwerthusiad ariannol.

Cloriannir buddion yr opsiynau fel â ganlyn:

| Opsiwn 1 | Meithrinfa |
|---|--|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 3 |
| Budd economaidd | 3 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 3 |
| Sylwadau | Yn cynnig ystod buddion cyflawn ac elfen ychwanegol werthfawr i'r pentref. |
| Cyfanswm dyfarniad | 9 |

| Opsiwn 2 | Ystafell gymunedol |
|---|--|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 2 |
| Budd economaidd | 2 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 2 |
| Sylwadau | Safle newydd amlbwrpas fel canolbwynt i'r pentref. |
| Cyfanswm dyfarniad | 6 |

| Opsiwn 2 | Unedau Swyddfa |
|---|---|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 1 |
| Budd economaidd | 3 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 2 |
| Sylwadau | Yn gatalydd pellach a chaffaeliad i hybu economi dalgylch Dwyfor. |
| Cyfanswm dyfarniad | 6 |

| Opsiwn 4 | Arddangosfa Hanes lleol |
|---|---|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 1 |
| Budd economaidd | 2.5 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 2 |
| Sylwadau | Yn gatalydd posibl a chaffaeliad i hybu economi'r pentref/dalgylch. |
| Cyfanswm dyfarniad | 5.5 |

| Opsiwn 5 | Gwersi Nos |
|---|--|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 2 |
| Budd economaidd | 1 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 2 |
| Sylwadau | Safle newydd addas i gynnal ystod o wersi nosweithiol. |
| Cyfanswm dyfarniad | 5 |

| Opsiwn 5 | Tai lleol |
|---|--|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 2 |
| Budd economaidd | 1 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 2 |
| Sylwadau | Cyfraniad bach at ostwng y rhestr aros, ond dim budd cymunedol eang. |
| Cyfanswm dyfarniad | 5 |

| Opsiwn 7 | Gwerthu crefftau lleol |
|---|--|
| Budd cymdeithasol/cymunedol | 1 |
| Budd economaidd | 1 |
| Diogelu/ymestyn adnoddau cymunedol | 2 |
| Sylwadau | Cyfle i hyrwyddo crefftau lleol law yn llaw a'r arddangosfa hanes lleol. |
| Cyfanswm dyfarniad | 4 |

Yr opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer Cynllun Busnes Y Babell felly yw Meithrinfa (1) ynghyd ag unedau swyddfa (2) ac ystafell cymunedol (2) sydd hefyd yn gwerthu crefftau lleol (7) yn ogystal â gwersi nos (5) ac arddangosfa hanes lleol (4). Nid yw opsiwn tai lleol (5) yn cymharu yr un mor ffafriol, mae'r budd yn gyfyngedig i denantiaid dau fflat yn unig ac eisoes mae cyrff statudol eraill â chyfrifoldeb dros ddiwallu tai lleol yn y pentref. Ni fyddai dewis yr opsiwn hwn yn rhoi elfennau ychwanegol i gymuned nac economi'r pentref nac ychwaith yn cyfrannu at geisio sicrhau cynladwyedd yr ysgol gynradd lleol yn yr un modd ag y gallai meithrinfa ei wneud.

6. Argymhellion

Yn sgil canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, ymchwil marchnad ac ymarfer cloriannu opsiynau, y model sy'n cael ei ffafrio ar gyfer yr adeilad yw cyfuniad o ddefnydd fel meithrinfa i blant, gan ganolbwyntio ar blant cyn oed ysgol o 18 mis oed i 5 mlwydd oed, a datblygiad swyddfa i annog pobl leol i leoli busnesau bychain neu fusnesau o'r newydd yn y pentref.

Felly mae'r argymhelliad hwn yn sail i'r rhagolygon ariannol a amlinellir isod. Gwerthuswyd hefyd ail opsiwn o ddatblygu'r safle i 4 uned tai (cymdeithasol) 2 ystafell wely ac amlinellir canlyniadau'r opsiwn hwnnw yn ogystal.

6.1. Rhagdybiaethau ac ansicrwydd

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r holl ragolygon yw fod gan y Capel ofod llawr defnyddiadwy o oddeutu 300 metr sgwâr wedi ei rannu'r gyfartal rhwng y llawr cyntaf a'r llawr gwaelod. Yr ail ragdybiaeth yw y bydd y feithrinfa ar y llawr gwaelod ond gyda mynediad at ofod allanol a rennir gyda'r ysgol gyfagos. Uchafswm ar gyfer y feithrinfa fyddai 20 o blant o gofio'r gofod llawr.

Rhagdybir fod y gofod swyddfa yn cael ei rannu i 8 uned cyfartal o ran maint ac i'w datblygu i safon masnachol da.

Yr ansicrwydd mawr yw cost addasu a gosod allan yr adeilad, sydd wedi ei hepgor o'r holl ragolygon ariannol oherwydd hynny. Felly beth rydym wedi ei gyflwyno yw proffidioldeb o'r opsiynau a amlinellwyd ond â chostau cyfalaf heb fod ynghlwm. Rydym wedi derbyn gwybodaeth i ddynodi fod costau adnewyddu o fewn ystod £250,000 i £450,000 yn ddibynnol ar natur gofynion llenwi i fewn mewnol ac allanol. Pan mae penderfyniad pendant yn cael ei gymryd o ran cyfeiriad y datblygiad byddem yn argymhell bod cynlluniau cyflawn a manwl yn cael eu datblygu.

6.2. Rhagolygon ar gyfer opsiwn Meithrinfa a Swyddfa

| Rhagolygon Ariannol Babel | | | | | |
|----------------------------------|-----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| | | | Model 1 | Model 2 | Model 3 |
| Meithrinfa | | | | | |
| | Incwm | | 102,000 | 81,600 | 93,600 |
| | Gwariant | | | | |
| | | Cyflogau | 62,000 | 56,000 | 59,600 |
| | | YG | 7,936 | 7,168 | 7,629 |
| | | Glanhau | 3,750 | 3,750 | 3,750 |
| | | Cyfleustodau | 4,000 | 4,000 | 4,000 |
| | | Nwyddau traul | 9,000 | 7,200 | 8,000 |
| | | Costau eraill | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | | | | | |
| | Cyfanswm cost | | 89,686 | 81,118 | 85,979 |
| | Elw Net | | 12,314 | 482 | 7,621 |
| | | | | | |
| | | | | | |
| Eiddo masnachol | | | | | |
| | Incwm | | 4,480 | 16,640 | 11,648 |
| | Gwariant | | | | |
| | | Cynnal a Chadw | 1,000 | 4,000 | 4,000 |
| | | Cyfleustodau | 1,200 | 4,000 | 4,000 |
| | | Glanhau | 1,875 | 1,875 | 1,875 |
| | | Arall | 1,000 | 2,000 | 2,000 |
| | | | | | |
| | Cyfanswm cost | | 5,075 | 11,875 | 11,875 |
| | Elw Net | | -595 | 4,765 | -227 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Elw | | | 11,719 | 5,247 | 7,394 |

6.3. Rhagdybiaethau ar gyfer model aml bwrpas

| Rhagdybiaethau | | | | |
|------------------------|----------------------|---|--|---|
| | | Model 1 | Model 2 | Model 3 |
| Meithrinfa | | | | |
| | Incwm | 15 plentyn llawn amser mewn grŵp oed cymysg rhwng 18 mis oed a 5 mlwydd oed ar raddfa ddyddiol o £34 am 40 wythnos y flwyddyn | Fel model 1 ond ar gyfer 12 plentyn | Fel model 2 ond gydag ychwanegiad o 8 plentyn ar ôl ysgol am 3 awr y dydd am £2.50 yr awr |
| | Cyflogau | 4.5 cyfanswm staff, 3.5 ar £12k y.f. ac 1 ar £20k | Fel model 1 cyfanswm o 4 aelod staff i gyd | Fel model 2 ond gyda 0.3 ychwanegol i gefnogi ar ôl ysgol |
| | YG ayyb | Cyflogwyr ar 12.8% ar gyfer pob model | | |
| | Glanhau | Dwy awr y dydd o lanhau am 50 wythnos ar £10 yr awr ar gyfer pob model | | |
| | Cyfleustodau | Dyraniad amcangyfrif gorau sefydlog | Fel model 1 | Fel model 1 |
| | Nwyddau traul | Yn bennaf bwyd am £3 i bob plentyn llawn amser pob dydd | | |
| | Costau eraill | Amcangyfrif ar gyfer nwyddau traul | | |
| Eiddo Masnachol | | | | |
| | Incwm | 1600 troedfedd sgwâr ar £3.50 pob blwyddyn | 8 uned ar £50 pob wythnos gyda cyfradd defnydd o 80% | Fel model 2 ond ar £35 yr wythnos |
| | Cynnal Chadw | Amcangyfrif gorau yn seiliedig ar brydles atgyweirio tenant | Amcangyfrif gorau ond ar sail atgyweirio llawn | Fel model 2 |
| | Cyfleustodau | Yn seiliedig ar denant yn talu cyfleustod | Yn seiliedig ar gyfleustod cynhwysol | Fel model 2 |
| | Glanhau | Un awr y dydd i bob model | | |
| | Arall | Amcangyfrif gorau yn seiliedig ar brydles atgyweirio tenant | Yn seiliedig ar gyfleustod cynhwysol | Fel model 2 |

6.4. Trafodaeth am fodel cymysg

Mae'r modelau uchod yn dangos tri o'r cyfuniadau posibl y gallwn eu gwerthuso, gan fod y ddau fusnes yn annibynnol, sy'n golygu yn y cyfuniad gorau posibl byddwn yn cymryd yr opsiwn cyntaf ar gyfer y feithrinfa a'r ail opsiwn ar gyfer yr eiddo masnachol, gan roi cyfuniad elw o £17,079. Yn yr un modd gellir gwrthdroi'r sefyllfa a fyddai'n arwain at sefyllfa gyffredinol o adennill costau.

Beth sydd yn amlwg yw y byddai'r feithrinfa angen isafswm o 12 plentyn i adennill costau, ac o gyfeiriad economaidd y ffordd orau i weithredu uwchlaw y lefel yma yw trwy ychwanegu mwy o staff llawn amser fel ym model 2. Er hynny, efallai nad dyma sy'n ddelfrydol o bersbectif cymdeithasol oherwydd gallai darpariaeth ar ôl ysgol fodloni anghenion y gymuned yn well, sy'n esbonio cynhwysiad model 3.

Tra bo hi'n debygol y byddai'r feithrinfa a'r gofod swyddfa ar y gorau o leiaf yn adennill costau mae hefyd yn amlwg na fyddant ychwaith yn gwneud elw digonol i ad-dalu'r costau datblygu, sy'n golygu y bydd rhaid i'r prif ffynhonnell cyllid ar gyfer yr ailddatblygu ddod o grantiau. Y prif reswm am hyn yw fod meithrinfeydd yn cael eu rheoleiddio'n drwm ac mae cymhareb staff i blant yn arbennig o bwysig. Golyga hyn os nad oes arbedion maint sylweddol ni fydd meithrinfa yn cynhyrchu gwarged enfawr ('*huge surplus*'). Yn y sefyllfa yma mae'n amhosibl cyflawni'r economïau hyn o gofio cyfyngiadau galw a gofod llawr mewnol.

Pwynt arall sy'n teilyngu sylw sydd mewn perthynas a'r Antur yw bod digon o gyfleoedd creu swyddi sylweddol o fewn y rhagolygon ar gyfer y feithrinfa ond hefyd i raddau llai yn y ddarpariaeth glanhau. Byddai hyn yn rhoi hwb i'r pentref os cyflogir pobl lleol.

6.5. Y Datblygiad fel anheddau

Cyfyngir ffrydiau refeniw y gellir eu creu o dai cymdeithasol oherwydd uchafsymiau rhent. Yn seiliedig ar wybodaeth gawsom gan Gyngor Gwynedd credwn mai'r uchafswm refeniw ar gyfer pob un annedd fyddai £5,200 y flwyddyn yn seiliedig ar rent o £100 yr wythnos. Mae hyn yn agos i gyfraddau'r farchnad leol a gafwyd. Pe rhagdybiwn gyfradd deiliadaeth o 80% yna byddai'r refeniw am y flwyddyn oddeutu £16,000, ac o amcangyfrif costau cynnal a chadw a chostau eraill ar 25% o refeniw gros yna mae'n cynhyrchu elw o £12k pob blwyddyn.

6.6. Rhagamcanion Ariannol Babell – 3 blynedd

| Rhagamcanion Ariannol Babell | | | | | |
|------------------------------|----------------------|----------------|---------------|---------------|---------------|
| | | | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 |
| Meithrinfa | | | | | |
| | Incwm | | 81,600 | 93,600 | 93,600 |
| | Gwariant | | | | |
| | | Cyflogau | 56,000 | 59,600 | 59,600 |
| | | YG ayyb | 7,168 | 7,629 | 7,629 |
| | | Glanhau | 3,750 | 3,750 | 3,750 |
| | | Cyfleustodau | 4,000 | 4,000 | 4,000 |
| | | Nwyddau traul | 7,200 | 8,000 | 8,000 |
| | | Costau eraill | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | Cyfanswm cost | | 81,118 | 85,979 | 85,979 |
| | Elw Net | | 482 | 7,621 | 7,621 |
| | | | | | |
| | | | | | |
| Eiddo Masnachol | | | | | |
| | Incwm | | 11,648 | 11,648 | 11,648 |
| | Gwariant | | | | |
| | | Cynnal a Chadw | 4,000 | 4,000 | 4,000 |
| | | Cyfleustodau | 4,000 | 4,000 | 4,000 |
| | | Glanhau | 1,875 | 1,875 | 1,875 |
| | | Arall | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| | Cyfanswm cost | | 11,875 | 11,875 | 11,875 |
| | Elw Net | | -227 | -227 | -227 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Elw | | | 255 | 7,394 | 7,394 |

Rhagdybiaethau:

Yn rhagdybio 12 lle llawn amser wedi eu llenwi ym mlwyddyn 1, wedi ei hategu gan glwb ar ôl ysgol o flwyddyn 2 i fyny. (Er enghraifft, model 1 yn cael ei ddilyn gan model 2). Mae'r eiddo masnachol yn seiliedig ar fodel 3 sydd yn £35 yr wythnos ar gyfer uned, gyda 8 uned a'r gyfradd defnydd o 80%. Mae cost ar gyfer y ddau opsiwn eisoes wedi eu hamlinellu yn yr adran modelu.

7. Diweddglo

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn gosod cyfeiriad penodol i Antur Aelhaearn fwrw ymlaen gyda Capel y Babell a'i addasu'n adnodd cymunedol ychwanegol. Ystyriwyd y prif opsiynau yn wrthrychol a diau y byddai angen denu cyfalaf grant tuag at waith addasu allanol a mewnol. Dangoswyd fod sawl ffynhonnell posibl ar gael, gyda rhai yn fwy addas na'u gilydd. Cyn bwrw ymlaen ymhellach bydd rhaid i Antur Aelhaearn gael dyfynbris manwl o gostau addasu'r adeilad at bwrpas sefydlu meithrinfa ac unedau busnes er mwyn symud ymlaen gyda chynlluniau sydd wedi eu costio'n fanwl ac yn sgil cynnal ymgynghoriad cyhoeddus trwyadl gyda thrigolion y pentref a'r ardal.

8. Atodiad A: Llythyr/Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus

DYLAN BRYN CYF

Trigolion pentref Llanaelhaearn

28 Mehefin 2012

Annwyl gyfeillion,

Mae Antur Aelhaearn wedi ein penodi i baratoi Cynllun Busnes ar gyfer adnewyddu a datblygu Capel Babel, Llanaelhaearn. Rydym felly yn awyddus i gasglu eich barn chi fel trigolion y pentref ynglŷn â gwneud y defnydd gorau posibl o'r adeilad. Gallwch chi wneud hynny trwy gwblhau'r holiadur sydd hefo'r llythyr hwn (hefyd ar gael ar safle gwe www.llanaelhaearn.com). Yn ychwanegol byddwn yn cynnal sesiwn galw i fewn yng Nghapel Babel rhwng 3 ac 8pm Nos Fawrth 17 Gorffennaf er mwyn i chi allu rhannu a thrafod eich syniadau yn unigol hefo ni. Bydd rhai o aelodau Antur Aelhaearn hefyd yn bresennol i drafod syniadau hefo chi.

Byddwn yn parchu cyfrinachedd pob holiadur a gwblheir, nac yn datgelu unrhyw enwau. Dylid dychwelyd yr holiadur yn yr amlen gan nodi 'At sylw Dylan Bryn Roberts' i swyddfa Antur Aelhaearn cyn 17 Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

Llanaelhaearn village residents

28 June 2012

Dear friends,

We've been appointed by Antur Aelhaearn to prepare a Business Plan for the renewal and development of Babel Chapel, Llanaelhaearn. As such we're eager to gather your views as village residents of the best use possible of the building. This can be done by completing the questionnaire with this letter (also available on www.llanaelhaearn.com website). In addition a drop in session will be held at Babel Chapel between 3 and 8pm on Tuesday 17th July where you can share and discuss your ideas individually with us. Some Antur Aelhaearn members will also be present to discuss ideas with you.

We will respect the confidentiality of all completed questionnaires, and not disclose any names. Completed questionnaires should be returned in the envelope and addressed 'FAO Dylan Bryn Roberts' to Antur Aelhaearn office before 17 July, please.

Yn gywir/ Yours sincerely



Dylan Bryn Roberts

Tel: 07989 393 445

E-bost/Email: Dylanbryn@yahoo.co.uk

DYLAN BRYN Cyf

HOLIADUR CAPELL BABELL CHAPEL QUESTIONNAIRE

| | |
|---|--|
| Enw Name: | |
| Cyfeiriad Address: | |
| Rhif ffôn cyswllt Telephone contact details: | |

| | |
|--|---|
| 1. Yn 2008 prynodd Antur Aelhaearn Capel Babelll gyda'r bwriad o'i addasu fel adeilad i'w ddefnyddio fel adnodd i'r gymuned leol. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad yma? In 2008 Antur Aelhaearn purchased Babelll Chapel with the intention of renovating the building to be used as a resource for the local community. Do you support this intention? | |
| 1. Ydw/Yes | 2. Nac ydw (nodwch pam)/ No (state why) |
| | |

| | |
|--|---|
| 2. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad bydd angen gwneud cais am grantiau cyhoeddus. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad yma? To make the best use possible of the building public grant applications will need to be submitted. Do you support this intention? | |
| 1. Ydw/Yes | 2. Nac ydw (nodwch pam)/ No (state why) |
| | |

DYLAN BRYN Cyf

3. Rhowch gylch o gwmpas y syniadau canlynol ar gyfer Capel Babel yr ydych chi yn eu cefnogi?

Circle the following ideas for Babel Chapel which you support?

| | | | | | |
|------------------------|------------------------------------|---|------------------------------|--|---|
| Meithrinfa/ Nursery | Unedau Swyddfa/ Office Units | Ystafell gymunedol/ Community room | Gwersi nos/ Night classes | Arddangosfa hanes lleol/ Local history Exhibition | Gwerthu crefftau lleol/ Selling Local crafts |
|------------------------|------------------------------------|---|------------------------------|--|---|

4. Os nad ydych yn cefnogi'r syniadau uchod, pa ddefnydd ymarferol a realistig garech chi weld Antur Aelhaearn yn ei wneud o'r adeilad?

If you do not support the above ideas what practical and realistic use would you like to see Antur Aelhaearn make of the building?

| |
|--|
| |
|--|

5. Unrhyw sylwadau pellach?

Any further comments?

| |
|--|
| |
|--|

Dylid dychwelyd yr holiadur yn yr amlen gan nodi 'At sylw Dylan Bryn Roberts' i swyddfa Antur Aelhaearn, neu trwy e-bost at Dylanbryn@yahoo.co.uk, cyn 17 Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Completed questionnaires should be returned in the envelope addressed 'FAO Dylan Bryn Roberts' to Antur Aelhaearn office or via email to Dylanbryn@yahoo.co.uk before 17 July, please.

Diolch yn fawr/ Many thanks